Rhyd Y Gofaint

ADOLYGIAD O FFRWYTHLONDEB Y FUCHES

BETH MAE'N EI OLYGU?

Ffrwythlondeb yw un o'r prif ffactorau sy'n effeithio ar effeithlonrwydd unrhyw fuches laeth, gydag AHDB Dairy yn amcangyfrif bod lefel ffrwythlondeb isel yn costio oddeutu £25,000 y flwyddyn mewn buches o 100 o wartheg sy'n perfformio ar lefel gymedrol o ganlyniad i golledion o ran cynhyrchiant llaeth, llai o loi, cyfradd difa uwch a chostau milfeddygol uwch.

BLE MAE DECHRAU?

Y ffordd orau o fynd ati i wella ffrwythlondeb yw edrych ar y fferm yn ei chyfanrwydd. Os ydych chi'n credu bod ffrwythlondeb eich buches yn eich dal yn ôl, y **man cychwyn yw dechrau casglu data** i ganfod perfformiad ffrwythlondeb presennol eich buches.

Dilynwch y rhestr wirio isod:

- ✓ Cofnodwch unrhyw broblemau iechyd am hyd at 60 diwrnod ar ôl lloia
- ✓ Gweithiwch gyda'ch milfeddyg i gynnal profion metricheck ar wartheg 3 wythnos + ar ôl lloia i ganfod llid y groth
- ✓ Nodwch unrhyw wartheg nad ydynt yn dangos arwyddion o ofyn tarw ynghyd ag unrhyw resymau:
  - › Sgôr cloffni uchel ≥2
  - › Sgôr Cyflwr Corff (BCS) isel <2
  - › Gwartheg sy'n cynhyrchu llawer o laeth
- ✓ Cwblhewch archwiliad porthiant gyda'ch milfeddyg neu faethegydd annibynnol:
  - › Gwiriwch fod gwartheg sy'n llaetha a gwartheg sych yn bwyta digon o ddeunydd sych
  - › Gwiriwch fod diet y gwartheg yn darparu 13-14% o Brotein Crai
  - › Dadansoddwch gynnwys mwynau'r porthiant – mae Magnesiwm, Sinc, Seleniwm a Chopr yn elfennau hybrin hanfodol er mwyn gwella ffrwythlondeb
  - › Gwiriwch fod gan wartheg sych o leiaf 0.75m o le i fwydo os maent yn cael eu cadw dan do
- ✓ Ail-edrychwch ar gofnodion lloia i ganfod unrhyw broblemau amlwg
- ✓ Cwblhewch adolygiad blynyddol o iechyd a lles gyda'ch milfeddyg i drafod cofnodion meddyginiaeth y fuches a chanfod unrhyw bryderon amlwg a meysydd lle gellir lleihau'r defnydd o driniaethau gwrthficrobaidd
- ✓ Trafodwch berfformiad y fuches gyda thîm y fferm gyfan ynghyd â lle byddai modd gwella dulliau rheoli

DEFNYDDIO'R DATA?

Unwaith y byddwch wedi dechrau casglu'r data i roi darlun clir o feysydd ffocws er mwyn gwella ffrwythlondeb y fuches, **y cam nesaf yw cymharu gydag eraill a gosod targedau** gyda'ch milfeddyg ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Dyma dargedau safonol (Dangosyddion Perfformiad Allweddol) y diwydiant ar gyfer buchesi sy'n lloia mewn bloc a drwy gydol y flwyddyn, gyda lle i chi nodi eich Dangosyddion Perfformiad Allweddol targed eich hunain:

DPA LLOIA MEWN BLOC	DPA LLOIA DRWY'R FLWYDDYN	FY NANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL
1. Cyfradd buchod cyflo 6 wythnos >78% 2. Cyfradd buchod gwag 12 wythnos - <10% 3. Cyfradd wedi lloia o fewn 6 wythnos - >90%	1. Cyfradd beichiogi 21-diwrnod - >25% 2. 80% wedi cael tarw erbyn 80 diwrnod yn llaetha (DIM) 3. Cyfradd buchod cyflo 100 diwrnod - >50%	1. 2. 3.

(Dobson, H. et al. (2008)) Why is it getting more difficult to successfully artificially inseminate dairy cows?, Animal : an international journal of animal bioscience. Ar gael yma: https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC2854809/ (Cyrchwyd: 22 Mai 2024).

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

EIN FFERMYDD OUR FARMS